Cofnodion Cyfarfod Blynyddol Cyngor Cymuned Llanfihangel Ystrad a gynhaliwyd ar Nos Fawrth, 8 Mai, 2018 am 7.30yh yn Ysgol Cribyn.

PRESENNOL

Cynghorwyr : Lynford Thomas (Cadeirydd), Johnny Davies, Gerwyn Owen, Glyn Davies, Daniel Evans, Alan Henson, Haf Hughes, Harry Williams, Lyn Williams, Alan Henson, Glyn Hywel Ifans

1.**YMDDIHEURIADAU**

Ni dderbyniwyd ymddiheuriadau

2. **PERSONOL**

Llongyfarchwyd Y Cyng. Hywel Ifans ar ennill gwobr Arweinydd Gorau yng Ngwobrau Technoleg Cymru 2018. Cyflwynwyd y wobr mewn seremoni yng Nghaerdydd ar y 3ydd o Fai.

3. DATGELU BUDDION PERSONOL

Dim i'w datgelu

4. **COFNODION**

Cadarnhawyd cofnodion cyfarfod y 9fed o Fai, 2017 yn gywir. Cynigiwyd gan Y Cyng. Harry Williams ac eiliwyd gan Y Cyng. Glyn Davies.

5.. MATERION YN CODI

Dim materion l'w trafod

6. **GOHEBIAETH**

Dim gohebiaeth.

7. **CYLLID**

i. Dosbarthwyd y fantolen. Nododd y Clerc bod yr archwiliwr mewnol Mr. Gwyn Jones wedi cwblhau'r cyfrifon am 2017-2018 ond heb eto wedi paratoi'r adroddiad. Caiff hwn ei rannu yng nghyfarfod nesa'r Cyngor ym mis Mehefin.

ii. Datganiad Llywodraeth Blynyddol. Gwnaeth yr aelodau ddatgan eu cyfrifoldeb dros sicrhau bod y system yn gadarn ac fe arwyddodd y Cadeirydd ei fod yn neu cymeradwyo.

8. **DEWIS SWYDDOGION**

Swydd	**Cynigydd:**	**Eilydd**
Cadeirydd		
Haf Hughes	Harry Williams	Glyn Davies
Is-Gadeirydd		
Alan Henson	Glyn Davies	Gerwyn Owen
Clerc		
Eleri Lewis	Glyn Davies	Gerwyn Owen
Archwiliwr Mewnol		
Gwyn Jones	Harry Williams	Alan Henson

Wrth drosglwyddo'r awennau i'r Cyng. Haf Hughes, diolchodd y Cyng. Lynford Thomas i'w gyd-aelodau am y cydweithio hapus a fu yn ystod blwyddyn ei gadeiryddiaeth a dymunodd pob dymuniad da i Haf yn y gwaith dros y flwyddyn nesaf.

Wrth gymryd y Gadair, fe wnaeth Haf ddiolch i Lynford am ei wasanaeth clodwiw ac ategwyd hyn gan y Cyng. Harry Williams trwy gyfeirio at ei gamp fel deilydd dwy tsaen yn ystod yr un flwyddyn yn sgil ei swydd yn Gadeirydd y Cyngor Sir.

9. **COD YMDDYGIAD**

Trafodwyd y Cod Ymddygiad ac fe'i dderbyniwyd yn unfrydol gan yr aelodau.

10. ASESIAD RISG Y CYNGOR

Nododd y Cyng. Lynford Thomas, Ymgynghorydd Iechyd a Diogelwch, nad oedd unrhyw newidiadau. Penderfynwyd ei dderbyn yn unfrydol gan yr aelodau.

11. **UNRHYW FATER ARALL**

i. Penderfynwyd cadw ymlaen ar drefn o gwrdd ar yr ail nos Fawrth o bob mis yn Neuadd Goffa, Felinfach, Ysgol Cribyn a Neuadd Dihewyd am 7.30yh. Cynigwyd gan y Cyng Harry Williams ac eiiwyd gan y Cyng. Dan Evans.

ii. Penderfynwyd codi cyflog y gweithwyr rhan amser 2%. Cynigiwyd gan y Cyng. Glyn Davies ac eiliwyd gan y Cyng. Harry Williams.